CYNGOR SIR YNYS MÔN	
PWYLLGOR:	**Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
DYDDIAD:	**22 11 2016**
PWNC:	**Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Ynys Môn**
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	**Y Cynghorydd Aled Morris Jones**
PENNAETH GWASANAETH:	**Alwyn Jones & Llŷr Bryn Roberts**
AWDURON YR ADRODDIAD: **Ffôn:** **E-bost:**	**Margaret Peters & Alwyn Jones** **1812 2707** **MargaretPeters@ynysmon.gov.uk** **AlwynJones3@ynysmon.gov.uk**

1.0 ARGYMHELLION

1) Derbyn yr adroddiad hwn fel diweddariad ffurfiol ynghylch gwasanaethau integredig neu wasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth ar draws y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol
2) Cefnogi gwaith partneriaeth a chydweithio yn y dyfodol o dan Grant o'r Gronfa Gofal Canolraddol

2.0 CEFNDIR

2.1 Gwybodaeth am Wasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Ynys Môn i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd 2016

Mae hanes hir yn Ynys Môn o gydweithio llwyddiannus. Mae enghreifftiau da yn cynnwys Model Môn (y tîm arweinyddiaeth ardal) a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig, gan gynnwys timau amlddisgyblaethol mewn rhai meysydd gwasanaeth. Nid yw'r ffordd hon o weithio yn ddim byd newydd i Ynys Môn.

Sefydlwyd Bwrdd Cyflawni ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (y Bwrdd Cyflawni) ym mis Ionawr 2014. 'Rydym o'r farn bod yr Awdurdod a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol gan ddefnyddio'r fforwm hwn i gynllunio a sicrhau y darperir gwasanaethau gofal a chymorth integredig, er mwyn cwrdd ag anghenion pobl Ynys Môn yn y ffordd orau. Mae hyn yn cynnwys datblygu modelau darparu newydd, gan symud y ffocws tuag at wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar gydag unigolion.

Mae'r Bwrdd Cyflawni yn darparu'r trefniadau llywodraethu mewn perthynas â phrosiectau / ffrydiau gwaith penodol ar gyfer gweithio integredig megis: Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD), y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC), y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol (TADC) a'r Gwasanaethau Arbenigol Plant (GAP).

Mae perthynas waith dda rhwng yr Awdurdod a'r Bwrdd Iechyd o safbwynt strategol drwy'r Bwrdd Cyflawni, a hefyd o safbwynt gweithredol trwy Model Môn, sef y grŵp cyflawni. Mae'r Bwrdd Cyflawni yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion gweithredol a strategol a chyfleoedd ar gyfer mwy o integreiddio a mwy o weithio mewn partneriaeth rhwng gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae Model Môn yn cyfarfod bob mis ac yn uwchgyfeirio materion i'r Bwrdd pan fo angen.

Mae'r enghreifftiau hyn o weithio integredig yn gydnaws ag ethos Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") sy'n rhoi rheidrwydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithio â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithio gyda'r awdurdodau lleol ac i ddarparu gwybodaeth iddynt i ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae Rhan 9 y Ddeddf hefyd yn darparu ar gyfer trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau. Diben Rhan 9 yw gwella canlyniadau i bobl a gwella llesiant, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau. Gellir disgrifio'r nodau allweddol, sef cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth.
- Gwella canlyniadau ac iechyd a llesiant.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Disgrifiad byr o'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a ddarperir ar hyn o bryd

Gofal Uwch Môn (GUM)

Mae'r gwasanaeth Gofal Uwch Môn yn wasanaeth yn y gymuned sydd wedi ei gydleoli o fewn y Gwasanaethau Oedolion yn Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn darparu ymyrraeth tymor byr ar gyfer achosion unigol er mwyn osgoi achosion lle mae pobl yn mynd i'r ysbyty heb fod angen ac i ddarparu lefel uwch o gymorth meddygol a nyrsio i gleifion yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain. Mae'r gwasanaeth yn bennaf ar gyfer pobl hŷn fregus ac oedolion a chanddynt gyflyrau cronig, ac mae'n gofalu am gleifion a fyddai fel arall yn mynd i'r ysbyty. Gall hefyd hwyluso rhyddhau pobl yn gyflymach o'r ysbyty mewn rhai achosion.

Cronfa Gofal Canolraddol (CGC)

Mae'r Cynllun Cronfa Gofal Canolraddol (CGC) a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ac a weinyddir gan BIPBC yn ei drydedd flwyddyn. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i annog cydweithio rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai, a hynny er mwyn cynorthwyo pobl i gynnal eu hannibyniaeth ac i barhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Cafwyd llwyddiant yn rheoli sut y dyrannwyd y grant hwn i gryfhau a gwella'r gwasanaethau cyfredol ac i ddatblygu rhai newydd ar draws y meysydd gofal iechyd a gofal cymdeithasol ac i bartneriaid yn y sector annibynnol a gwirfoddol dros y 3 blynedd diwethaf. ***Gweler Atodiad 1*** am restr o brosiectau a ariannwyd gyda'r cyllid hwn yn Ynys Môn.

Mae'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD) yn gweithio gyda theuluoedd sy'n dymuno gwneud newidiadau o fewn eu teuluoedd i gadw eu plant yn ddiogel. Mae'n gweithio gyda theuluoedd lle mae camddefnyddio sylweddau ac alcohol yn brif ffactor risg. Mae'r gwasanaeth yn wirfoddol ac mae ar gael am gyfnod o 12 mis. Mae'r gwasanaeth yn ceisio gweithio gyda phob aelod o'r teulu.

Mae Linc Cymunedol Môn yn wasanaeth gwybodaeth o fewn Medrwn Môn, sef y Cyngor Gwirfoddol Cymunedol lleol. Mae'n darparu gwybodaeth ynghylch gweithgareddau cymorth a chymunedol yn Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys unrhyw wasanaethau trydydd sector i unigolion sydd ag anghenion lefel isel i ganolig. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau megis grwpiau cymdeithasol, grwpiau cinio, cyfeillio a thrafnidiaeth gymunedol a nifer o wasanaethau eraill.

Mae'r Gwasanaeth Un Pwynt Mynediad (UPM) wedi bodoli yn Ynys Môn ers mis Mai 2011. Mae'n darparu mynediad uniongyrchol i gyngor, asesiadau, a gwasanaethau iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol cydlynol i oedolion, trwy gysylltu ag un pwynt canolog. Mae hyn yn cynnwys mynediad at weithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a nyrsys ardal. Mae hefyd yn cyfeirio'r rheini sydd angen cymorth o fewn eu cymunedau i Linc Cymunedol Môn.

Mae'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol (TIMC) yn dîm o staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi ei gydleoli ac sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned ar gyfer trigolion Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo oedolion ag anghenion iechyd meddwl dwys, tymor byr a thymor hir, gan gynnwys y rheini â salwch meddwl parhaus.

Mae'r Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol (TADC) yn dîm o staff gofal cymdeithasol ac iechyd sydd wedi ei gydleoli ac sy'n cynorthwyo unigolion ag anabledd dysgu yn Ynys Môn. Mae'r tîm yn un o chwech o dimau tebyg ar draws Gogledd Cymru. Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer cyflawni model gofal cymdeithasol o wasanaeth anabledd dysgu, gyda chydweithwyr iechyd yn darparu ymyriadau iechyd arbenigol i bobl ar y Gofrestr Anabledd Dysgu.

Mae'r Gwasanaethau Arbenigol Plant (GAP) yn dîm asiantaeth ar y cyd sy'n cynnwys staff Iechyd (BIPBC) a'r Gwasanaethau Plant (Cyngor Sir Ynys Môn). Sefydlwyd y gwasanaeth dan Gytundeb Adran 33 rhwng y ddwy asiantaeth yn 2013. Roedd y Gwasanaeth yn dîm integredig cyn y dyddiad hwn. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl rhwng 0 -18 oed a chanddynt anghenion cymhleth ac sy'n byw ar yr ynys.

Faint o staff sy'n gweithio yn y gwasanaethau integredig?

Enw'r gwasanaeth	Staff Iechyd	Staff y Cyngor	Medrwn Môn
Gofal Uwch Môn	7	0.5	
Prosiectau Cyllid Gofal Canolraddol	Niferoedd yn amrywio o brosiect i brosiect		
Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd	2	4	
Linc Cymunedol Môn *(Un Pwynt Mynediad Trydydd Sector)*			2
Un Pwynt Mynediad	O bosib 1 yn y dyfodol	6	
Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol	25	29	
Tîm Anabledd Dysgu Cymunedol	10	5	
Gwasanaethau Arbenigol Plant	5	7 aelod o staff craidd heb gynnwys gweithwyr cymorth	

* *Sylwer bod y rhain yn gymysgedd o staff amser llawn a rhan amser*

Beth sy'n gweithio'n dda / beth yw'r manteision?

Gofal Uwch Môn

- Mae cleifion yn cael mynediad i lefel uwch o asesiadau meddygol / nyrsio yn eu cartrefi eu hunain, gan osgoi'r angen i fynd i'r ysbyty (lle bo hynny'n briodol, neu lle mae'r claf wedi gwrthod mynd i'r ysbyty).
- Mae manteision yn sgil cydleoli o fewn adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn, gan gynnwys perthynas waith agosach, mynediad hwylus i gymorth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr adeg pan fo'i angen a chryfhau cyfathrebu ar gyfer cynllunio gofal ar y cyd.
- Mynediad cyflym at ddiagnosteg (h.y. sgrîn gwaed llawn, gyda rhai profion yn cael eu gwneud yng nghartref y claf a'r canlyniadau ar gael o fewn munudau, ECG, ECG 24 awr) sy'n golygu y gellir gwneud penderfyniadau cyflymach ynghylch cynlluniau rheoli

ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chleifion.

- Yn osgoi'r effeithiau niweidiol yr ydym yn gwybod eu bod yn gysylltiedig â mynd i'r ysbyty, gan gynnwys Heintiau a Gafwyd yn yr Ysbyty. Hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y gall cleifion aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.
- Yn lleihau'r defnydd o welyau yn yr ysbyty, gan helpu i wella llif cleifion trwy'r ysbyty.
- Lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen cymorth Gofal Cymdeithasol yn y tymor hir drwy ymyrryd yn gynt, sicrhau adferiad cyflymach a chyfeirio pobl i wasanaethau cymorth cymunedol eraill.
- Cost- effeithiol – amcangyfrifodd gwerthusiad o'r gwasanaeth a wnaed yn ddiweddar gan Brifysgol Bangor (2014) arbediad o £2000 am bob achos 14 noson.

Prosiectau dan y Gronfa Gofal Canolraddol (CGC)

I.I. Mae gan yr UPM Trydydd Sector - **Linc Cymunedol Môn** ganlyniadau clir gyda ffocws ar roi cyngor, cymorth a gwybodaeth. Mae'r manteision yn cynnwys: -

- Gwasanaeth sy'n fwy ymatebol i anghenion yr unigolyn.
- Cynorthwyo pobl i gadw neu i adennill eu hannibyniaeth.
- Lleihau nifer y rhwystrau o ran medru cael gofal a chymorth.
- Cyfrannu at wasanaeth di-dor rhwng sefydliadau partner.
- Annog a grymuso pobl i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain.

II. **Cam i fyny / Cam i lawr**

- Helpu cleientiaid i barhau i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.
- Osgoi pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty a chartref gofal pan nad yw'n briodol.

III **Prosiectau dementia**

- Mae pobl yn dweud bod eu hiechyd a'u lles yn gwella a'u bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn teimlo'n llai unig.
- Er mwyn gostwng y niferoedd sy'n mynd i'r ysbyty ac atal neu ohirio mynd i gartref gofal.
- Gwell ansawdd bywyd i bobl ag anghenion gofal a chefnogaeth.

IV.IV **Timau Adnoddau Cymunedol Integredig 7 niwrnod - Ymateb Gyda'r Nos 'Night Owls'**

- Gostwng pa mor hir y mae pobl hŷn yn aros yn yr ysbyty
- Lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n aros yn yr ysbyty yn gyffredinol
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n gorfod mynd i'r ysbyty ar frys
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty cyn pen 30 diwrnod

- Gostwng nifer y bobl sy'n mynd i gartref preswyl ar sail barhaol
- Cynyddu nifer y bobl hŷn a gefnogir yn y gymuned.

V. V **Timau Adnoddau Cymunedol Integredig 7 niwrnod - Capasiti dros y Penwythnos**

- Cydlynu trefniadau asesu a chynllunio gofal mewn modd effeithiol, gan gynnwys ymyriadau therapiwtig a nyrsio ar draws trefniadau gweithio 7 niwrnod.
- Prosesau gweithredol cryfach yn y meysydd iechyd cymunedol a gofal cymdeithasol er mwyn mireinio'r capasiti ychwanegol dros y penwythnos

VI.VI **Prosiect Gofal a Llety Lefel Uwch - Dementia**

- Mabwysiadu model cymdeithasol o ofal dementia drwy weld dementia fel amhariad, lle gellir gwneud gwahaniaeth amlwg i ansawdd bywyd trwy'r ffordd o roi cymorth i bobl â dementia a thrwy eu hamgylchedd adeiledig a chymdeithasol.
- Ffyrdd o weithio a modelau gwasanaeth arloesol i alluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gael cymorth mewn lleoliadau gofal priodol yn Ynys Môn.
- Cyfrannu at ostyngiad yn nifer y bobl â dementia sy'n gorfod mynd yn annisgwyl i ysbytai cyffredinol a chymunedol o gartrefi gofal.
- Llai o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.

GICD

- Gweithio i fodel sy'n hyrwyddo newid mewn ymddygiad pobl.
- Cydweithio o fewn tîm lle mae gan weithwyr sgiliau lefel uchel ag amrywiol.

Linc Cymunedol Môn

- Mae gan Linc Cymunedol Môn eu rhif cyswllt a'u cyfeiriad e-bost eu hunain - felly os yw'r cyhoedd yn gofyn am wybodaeth gymunedol, nid oes angen iddynt gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn y lle cyntaf.
- Cysylltiadau da â'r Gwasanaethau Cymdeithasol - os yw galwad yn cael ei chyfeirio'n anghywir mae'r person yn cael ei ailgyfeirio.

Un Pwynt Mynediad

- Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n dda oherwydd bod y Gwasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a'r Trydydd Sector yn cydweithio'n agosach mewn ffordd fwy cydlynol a symlach. Mae hyn o fudd i'r cyhoedd sydd angen gwasanaeth gan fod y broses yn llawer mwy effeithlon. Mae o fantais i staff rheng flaen hefyd sy'n gweithio gyda'r un oedolion yn y gymuned. Mae cydweithio yn osgoi dyblygu ymdrech. Hefyd, nid oes raid i'r unigolion ailadrodd eu gwybodaeth, eu hanes a'u hanghenion i nifer o weithwyr sy'n ymwneud â darparu gofal iddynt. Mae hyn hefyd yn berthnasol i weithwyr.

- Mae'r UPM yn darparu model hyblyg ac integredig sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ac sy'n darparu ymateb sy'n briodol i lefel yr angen.
- Neilltuir gwaith i staff o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion mewn ffordd fwy effeithiol ac mae ganddynt well mynediad i wybodaeth am ddefnyddwyr y gwasanaeth ac mae hynny'n golygu eu bod yn gallu gweithio mewn ffordd sy'n fwy amserol, heb orfod mynd ar ôl gwybodaeth.
- Mae staff o fewn BIPBC yn derbyn atgyfeiriadau mewn ffordd fwy effeithiol ac yn derbyn gwybodaeth o ansawdd gwell i'w hysbysu o'r gwasanaethau sydd eu hangen. Mae'n ei gwneud yn haws i staff allan yn y gymuned allu dod o hyd i wybodaeth sydd ei hangen.
- Mae sefydliadau'r Trydydd Sector yn derbyn mwy o ymholiadau ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu darparu oherwydd bob pobl yn cael eu cyfeirio trwy'r trefniant UPM.
- Mae'r UPM yn cryfhau'r broses sgrinio ac yn cydlynu'r gwaith o gyfeirio pobl ymlaen at wasanaethau perthnasol.
- Mae'n symleiddio'r llwybr cyfeirio ar gyfer atgyfeiriadau ysbyty a chymunedol lle mae angen mewnbwn amlddisgyblaethol, gan gynnwys Gofal Canolraddol. Mae hefyd yn hyrwyddo ac yn hwyluso rhyddhau pobl o'r ysbyty.
- Mae'n cryfhau trefniadau gweithio amlddisgyblaethol sy'n seiliedig ar ardaloedd penodol er mwyn gwella cysondeb o fewn y broses ar gyfer y Fframwaith Asesu Integredig

TIMC

- Mae'r gwasanaeth wedi sefydlu'n dda ac mae'r model a gydleolir wedi gwreiddio ac mae'r rhanddeiliaid yn ei ddeall.
- Mae ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu canlyniadau cadarnhaol.
- Mae llawer o'r ymarferwyr yn ddwyieithog.
- Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau agos gyda nifer o wasanaethau statudol (e.e, gwasanaethau i gleifion mewn ysbytai, yr Heddlu, y Gwasanaeth Tai, y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau, y Gwasanaeth Prawf, y Gwasanaeth Tân, Gwasanaethau Plant) a sefydliadau trydydd sector (CAIS, Hafal, Mind,)
- Darperir cymorth i ofalwyr drwy gontract gyda Hafal. Mae'r swyddog Hafal yn y swyddfa TIMC yn rheolaidd.
- Mae gwasanaethau eiriolaeth (IMHA, IMCA, ac ati) wedi eu cynrychioli'n dda ar draws y ddarpariaeth gwasanaeth.
- Mae'r Gwasanaeth Cymorth Cymunedol (GCC) yn cynorthwyo unigolion yn eu cartrefi eu hunain ac mewn prosiectau tai â chymorth. Mae'n darparu cymorth i bobl ag anghenion gofal sylfaenol ac eilaidd ac mae wedi ennill contract yn ddiweddar i ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â thai o dan y cynllun grant Cefnogi Pobl.

TADC

- Ymateb eglur i angen a aseswyd
- Cydweithio amlddisgyblaethol effeithiol
- Mynediad dyddiol i weithwyr proffesiynol o wahanol ddisgyblaethau
- Prosesau cyffredin – NID systemau gwybodaeth
- Athroniaeth gyffredin
- Asesiadau ar y Cyd a Chydgynllunio Gofal ar y Cyd
- Cyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau

GAP

- Mae'r gwasanaeth yn gallu cynnig gwasanaeth o fath 'un stop' i atgyfeiriadau newydd a theuluoedd sydd eisoes yn derbyn gwasanaethau. Mae gan bob gweithiwr ei lwyth achosion unigol ac, yn dibynnu ar gymhlethdod pob achos unigol, efallai y bydd angen i fwy nag un swyddog proffesiynol / aelod o'r tîm ymwneud â'r achos.
- Bydd gweithwyr hefyd yn cydgysylltu ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth GAP er budd y plant a'r bobl ifanc anabl y maent yn gweithio gyda nhw e.e. Pediatregydd Cymunedol, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol, Staff Ysgol, Therapyddion Lleferydd ac Iaith, y Gwasanaeth Anghenion Cymhleth ac ati
- Mae holl staff y gwasanaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r teulu a gweithwyr proffesiynol eraill ac mae'n gallu cydlynu pecynnau gofal cymhleth drwy gynnal Cyfarfodydd Tîm Amlddisgyblaethol yn rheolaidd ac adolygu a yw gwasanaethau yn gweithio'n effeithiol.
- Gan fod y gwasanaeth wedi ei leoli mewn un lle, mae gweithwyr proffesiynol yn gallu ymateb yn brydlon i unrhyw broblemau a allai godi i deuluoedd a'u datrys cyn gynted ag y bo modd.
- Mae'r tîm staff yn sefydlog a rhwng yr holl aelodau mae yna gyfoeth o wybodaeth a phrofiad sy'n cael ei rannu gyda pharodrwydd ar lefel amlddisgyblaethol.
- Hyd yn oed os nad yw eu gweithiwr eu hunain ar gael, mae teuluoedd yn ymwybodol y byddai aelod arall o'r tîm yn gallu cynnig cymorth ac arweiniad yn y cyfamser.
- Mae gan y tîm agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith ac mae'r ffaith bod lefelau trosiant staff yn isel yn adlewyrchiad o hynny.

Faint o bobl sydd wedi cael budd o'r gwasanaethau hyn yn y gymuned yn ystod y 12 mis diwethaf?		
Enw'r gwasanaeth	**Oedolion**	**Plant**
Gofal Uwch Môn	**122** (Ebrill- Medi 2016)	
CGC – prynu gwelyau gofal canolraddol mewn cartrefi gofal preifat	**61**	
CGC - Gwelyau Gofal Canolraddol yng nghartref Plas Mona	**32**	
CGC - Caffis Dementia	**50**	
CGC - Homeshare	**18**	
CGC - Nightowls	**23**	
GICD	**50**	**63**
Linc Cymunedol Môn *(UPM Trydydd Sector)*	**3461 (558** trwy gyswllt uniongyrchol gyda Linc Cymunedol Môn & 2903 o alwadau wedi eu trosglwyddo o Medrwn Môn)	
UPM	**6,648** o atgyfeiriadau trwy'r trefniant UPM Ebrill 15- Mawrth 16. Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau Iechyd Cymunedol a Gofal Cymdeithasol, ond nid yw'n cynnwys yr elfen Linc Cymunedol Môn. Nid yw hyn yn adlewyrchu faint o bobl sydd wedi elwa o'r gwasanaeth hwn ond mae'n rhoi syniad o faint o atgyfeiriadau a dderbynnir. Cafwyd **1,728** o atgyfeiriadau rhwng Ebrill 16- Mehefin 16.	
TIMCT	**800** i **1000** o drigolion Ynys Môn ar unrhyw adeg	
TADC	**312** o bobl sy'n hysbys i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol dros y 12 mis diwethaf Y tîm iechyd wedi gweithio â **250 o** bobl (190 o atgyfeiriadau yn 12 mis diwethaf) *	
GAP		**125 o** blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.

** Bydd rhai o'r bobl hyn wedi cael eu cyfrif ddwywaith oherwydd ein hathroniaeth o gydweithio*

Pa wahaniaeth mae'r gwasanaethau hyn wedi ei wneud i'r bobl sy'n eu derbyn?

Gofal Uwch Môn

- Mae holiaduron boddhad a gafwyd gan ofalwyr / cleifion yn cynnwys atborth cadarnhaol iawn mewn perthynas â:
- Osgoi'r angen i dreulio amser maith mewn amgylchedd ysbyty.
- Gofal yn cael ei ddarparu yn y cartref lle mae cleifion yn teimlo eu bod yn gwella'n gyflymach.
- Llai o straen ar ofalwyr na phe bai eu hanwyliaid mewn amgylchedd ysbyty lle gallai teithio i ymweld â nhw fod yn anodd.

Prosiectau CGC

- Cymorth gan y prosiect yn caniatáu i nifer o grwpiau'r trydydd sector hyrwyddo gwasanaethau y maent yn eu cynnig i bobl a chymunedau lleol.
- Nodi a rhoi sylw i fylchau mewn gwasanaethau.
- Bydd wedi llwyddo pan fydd Linc Cymunedol Môn yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael ei gydnabod fel y gwasanaeth cyntaf y bydd unigolion yn cysylltu ag ef i chwilio am wybodaeth am ddarparwyr yn y trydydd Sector sy'n cynnig gwasanaethau i gwrdd ag anghenion Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles lefel isel ac yn chwarae rhan bwysig yn yr arlwy o wasanaethau cymorth sydd gan gydweithwyr yn y Sectorau Iechyd a Chyhoeddus
- Gostwng pa mor hir y mae pobl hŷn yn aros yn yr ysbyty
- Lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n aros yn yr ysbyty yn gyffredinol
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n gorfod mynd i'r ysbyty ar frys
- Gostwng nifer y bobl hŷn sy'n gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty cyn pen 30 diwrnod
- Gostwng nifer y bobl sy'n mynd i gartref preswyl ar sail barhaol
- Cynyddu nifer y gwelyau EMI yn Ynys Môn drwy ddatblygu modelau gwasanaeth arloesol.
- Cleientiaid yn derbyn gwasanaeth gofal cymdeithasol 7 niwrnod yr wythnos.
- Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n gorfod mynd y tu allan i'r sir am ofal Dementia.

GICD

- Teuluoedd yn gwerthfawrogi'r ffordd newydd o weithio.
- Arwain at newid o fewn teuluoedd.
- Cadw plant yn ddiogel.
- Cyfle i hyfforddi staff yn y gwasanaeth. Astudiaeth achos ar gael - ***gweler Atodiad 2***

Linc Cymunedol Môn

Astudiaeth achos ar gael - ***gweler Atodiad 3***

UPM

- Un pwynt cyswllt ar gyfer oedolion a'u teuluoedd a'u gofalwyr sy'n golygu nad oes rhaid iddynt gysylltu â nifer o wahanol wasanaethau ynglŷn â gwahanol agweddau ar eu gofal a'u cymorth. Mae hyn yn gwneud pethau'n llawer symlach a mwy effeithlon pan fyddant angen cysylltu â gwasanaethau cymunedol. Nid oes rhaid iddynt hefyd ailadrodd eu hanghenion a chadarnhau eu manylion sawl gwaith i wahanol weithwyr.
- Mae pobl Ynys Môn yn cael gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n caniatáu mynediad i wasanaethau o un man canolog. Mae'r broses atgyfeirio yn haws ac yn symlach.
- Mae'r UPM yn gydnaws ag ethos Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o leihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau statudol ac annog dinasyddion i fod yn fwy annibynnol. Mae'r UPM , ynghyd â'r elfen Linc Cymunedol Môn, yn annog pobl i ddefnyddio'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ar gael iddynt o fewn eu teuluoedd a'u cymunedau eu hunain.
- Mae unigolion yn cael mynediad i wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol a allai ohirio'r angen iddynt dderbyn gwasanaethau statudol a gorfodol, drwy symud i ffwrdd o fodel o ofal 'a arweinir gan y gwasanaeth'. Mae hyn yn annog pobl i gynnal eu hunain yn gadarnhaol o fewn eu cymunedau eu hunain.

TIMC

- Ymatebion y gwasanaeth yn gydlynol ac yn gymesur gan osgoi dyblygu.

TADC

- Cymorth tuag at anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd - cymorth gyda lle maent yn byw a'r math o gefnogaeth sydd ei hangen arnynt, gan sicrhau bod gwasanaethau gofal effeithiol a phriodol yn cael eu nodi, eu comisiynu a'u hadolygu. Cymorth gydag ymddygiadau heriol cymhleth mewn 4 maes allweddol, sef Iechyd Meddwl / Fforensig / Anableddau Dysgu Dwys a Lluosog ac Ymddygiadau heriol.

GAP

- Mae'r gwasanaeth yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf i deuluoedd plant a phobl ifanc anabl ac mae'n gallu cynnig cymorth a chefnogaeth ymarferol i gwrdd â'u hanghenion a dull ataliol i oresgyn anawsterau a materion sy'n codi.
- Y prif wahaniaeth yw bod yr holl staff yn gweithio o'r un swyddfa. Mae'n hawdd i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol gael cyngor ac arweiniad gan aelodau'r Tîm.

Faint yw'r gyllideb ar gyfer y gwasanaethau hyn ac o ble mae'n dod?

Enw'r gwasanaeth	Cyllideb flynyddol ar gyfer y gwasanaeth	Ffynhonnell y cyllid
Gofal Uwch Môn	**£ 204,776**	BIPBC
Prosiectau CGC	**£ 986,355 (£ 742,172 & £ 243,643)**	Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.
GICD	**£ 288,000**	Gan Lywodraeth Cymru i'r Grant Cynnal Refeniw
Linc Cymunedol Môn *(UPM Trydydd Sector)*	**£ 36, 000**	Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru.
UPM * *Uwch Swyddog Dyletswydd*	**£ 26,400**	Cronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru. Mae'r CGC wedi ariannu'r swydd hon ers 2014/2015. Gwneir hyn ar sail flynyddol ac ar hyn o bryd mae wedi ei hariannu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2017.
2 Swyddog Dyletswydd	**£ 48,000**	Cyllid Gofal Iechyd Parhaus
3 Swyddog Ddyletswydd	**£ 75,309**	Cyllideb graidd y Gwasanaethau Oedolion
TIMC	**£ 1.8 miliwn**	Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu ar y cyd gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.
TADC	**£ 4.9 miliwn**	Gwasanaethau Oedolion
GAP	**£ 225,440**	7 swydd a ariennir gan y Cyngor (£225,440) 5 swydd a ariennir gan y Bwrdd Iechyd (£136, 179)

***** *Mae'r UPM wedi dod yn rhan annatod o'r gwasanaeth craidd ac ariennir yr elfen weithredol yn bennaf drwy gyllideb graidd y Gwasanaethau Oedolion. Yn ystyried model gwahanol i'r dyfodol ar hyn o bryd. Byddai hyn yn cynnwys strwythur o dimau tymor byr a thymor hir o fewn y Gwasanaethau Oedolion a allai gael effaith yn dibynnu ar y model a gytunir ar gyfer y dyfodol.*

Atodiad 1

Prosiectau a ariennir gan CGC ym Môn:

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17 mae Ynys Môn wedi derbyn dyraniad ariannol o £742,712 a gwariant cyfalaf pellach o £243,643.

Cydlynu'r UPM - Linc Cymunedol Môn
Nod y prosiect yw sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bobl a chydweithwyr yn y sector cyhoeddus am sefydliadau trydydd sector sy'n gallu darparu cymorth a gwybodaeth i fynd i'r afael ag anghenion iechyd, gofal cymdeithasol, llesiant a chymdeithasol lefel isel trwy weithgareddau yn y gymuned i gynnal a gwella lles pobl yn eu cymunedau.

Gwasanaeth Camu i fyny / Camu i lawr / Prynu gwelyau gofal
Y nod yw darparu gwasanaeth integredig, ymatebol a chynhwysol a fydd yn cael eu prif-ffrydio o fewn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaglenni dementia

Yn anelu at fod yn wasanaeth ataliol a helpu gofalwyr.

Prosiect mewn 2 Rhan:

1. Caffi Cofio
2. Rhannu cartref

Timau Adnoddau Cymunedol Integredig 7 niwrnod - Ymateb gyda'r Nos 'Night Owls'
Bydd y gwasanaeth hwn o gymorth i osgoi achosion lle mae pobl yn mynd i'r ysbyty heb fod angen neu'n mynd i gartrefi gofal neu nyrsio pan nad yw'n briodol, yn ogystal â chynorthwyo i ryddhau pobl yn gynnar o'r ysbyty.

Timau Adnoddau Cymunedol Integredig 7 niwrnod - Capasiti dros y Penwythnos
Cydlynu gofal yn well rhwng gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a'r sector annibynnol, er mwyn canolbwyntio ar ofal ataliol ac osgoi achosion lle mae pobl yn mynd i'r ysbyty heb fod angen neu i osgoi oedi gyda rhyddhau pobl hŷn o'r ysbyty, yn enwedig yr henoed bregus.

Prosiect Llety a Gofal Lefel Uwch Garreglwyd - Dementia
Gweithio mewn partneriaeth gyda BIPBC i ddatblygu modelau gofal priodol ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a chyflyrau cymhleth eraill.

Prosiectau cyfalaf

Gwariant cyfalaf er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn Garreglwyd yn cwrdd â'r safon sy'n ofynnol dan y Nod Barcud ar gyfer Dementia.

Datblygu **Uned Asesiad Manylach a Chartref Clyfar** o fewn cartrefi gofal yr awdurdod Lleol fel adnodd cymunedol.

Datblygu **hybiau cymunedol** trwy ddefnyddio'r cyfleusterau cymunedol sydd eisoes yn bodoli a mabwysiadu dull cyd-gynhyrchiol gyda dinasyddion i gyd-ddylunio rhaglen o weithgareddau

I brynu offer arbenigol fel **beiciau tair olwyn a beiciau** i blant ag anableddau. Prynu **offer synhwyraidd** hefyd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Adnewyddu a gwella'r gosodiadau a'r ffitiadau mewnol yn yr **Hen Reithordy** (cyfleuster Gofal Ysbaid Anableddau Dysgu) er mwyn lletya pobl ag anghenion corfforol cymhleth a hyrwyddo annibyniaeth gyda thasgau hunanofal.

Mewn partneriaeth ag Adran Dai Cyngor Sir Ynys Môn, datblygu ystod o **unedau byw'n annibynnol** i alluogi pobl ag anghenion cymorth cymhleth i fyw'n ddiogel mewn tai cyffredin ac ynddynt gyfleusterau i gwrdd â'u hanghenion.

Atodiad 2 Sylwadau ar weithio integredig o fewn y GICD:

Awdur: Llŷr ap Rhisiart (Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol GICD Ynys Môn a Gwynedd)
Hydref 2016

Mae'r tîm GICD yn cynnwys tri o weithwyr cymdeithasol o gefndiroedd gofal plant a thri aelod o staff nyrsio o'r gwasanaethau camddefnyddio sylweddau, nyrsys ysgol ac iechyd meddwl. Mae pob aelod o'r tîm yn gweithio i'r un model o ymyrraeth ac mae achosion yn cael eu neilltuo i'r gwasanaeth. Mae'r model hwn yn seiliedig ar fodelau ymyrraeth yn y meysydd gofal cymdeithasol a meddygol. Mae yna nifer o fanteision o weithio mewn tîm amlddisgyblaethol ac integredig;

- Mae pob gweithiwr yn dod â'i brofiad /phrofiad ei hun o weithio gydag oedolion, plant neu deuluoedd '. Mae'r gweithwyr o fewn y tîm yn unigolion profiadol sydd â chyfoeth o wybodaeth a phrofiad yn eu meysydd arbenigedd perthnasol.
- Gall trafodaethau achos o fewn y gwasanaeth fod yn hynod fuddiol a gall defnyddio gwybodaeth a sgiliau pob gweithiwr ddarparu datrysiadau gwell i rieni a phlant. Mae hyn bellach yn rhan greiddiol o'n harferion.
- O ganlyniad gellir darparu gwasanaethau ar amser sy'n hwylus gan ostwng y patrwm o ddarparu gwasanaethau i deuluoedd ar adegau pan nad yw'n gyfleus iddynt.
- Mae'r tîm wedi cael hyfforddiant ar nifer o ymyriadau sy'n gostwng yr angen i gael nifer o weithwyr gwahanol i ddelio â'r teulu. Mae atborth gan deuluoedd yn awgrymu bod hyn yn fuddiol iawn iddynt ac yn creu perthynas waith agos gyda'r teulu.
- Mae gan y gwasanaeth rôl o ran gwella'r cydweithio a'r ddealltwriaeth rhwng y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion. Gall y dasg hon fod yn heriol ar adegau ond mae'n fanteisiol bod y GICD yn cynnwys gweithwyr o wahanol gefndiroedd a all gynnig gwahanol safbwyntiau o ran y pethau a all fod yn her i wahanol asiantaethau.
- Mae'r gweithgor GICD yn fforwm i bob asiantaeth drafod cydweithio effeithiol gyda phwyslais ar arferion da.
- Mae pob un o'r gweithwyr wedi eu lleoli mewn un swyddfa ganolog ac maent yn cynnig gwasanaeth i'r ddwy sir. Mae cael staff Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd o fudd i'r gweithwyr a'r teuluoedd.
- Mae hefyd yn hyrwyddo'r syniad a'r ethos bod y GICD yn wasanaeth i bob asiantaeth, sef rhai iechyd a gofal cymdeithasol fel ei gilydd (er mai'r Awdurdod Lleol sy'n ei ariannu a'i arwain).
- Mae'r tîm GICD yn cael mynediad i lu o gyfleoedd hyfforddi gan Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Yn gyfnewid, gall y GICD gynnig hyfforddiant ar gyfer staff gofal cymdeithasol ac iechyd (am ddim). Gall y GICD ddod ag asiantaethau at ei gilydd a hyrwyddo cydweithio yn y maes diogelu plant.

Atodiad 3 Linc Cymunedol Môn

Roedd Mr. P (72 oed) wedi colli ei wraig yn ddisymwth 4 mis yn ôl, ac roedd yn teimlo'n unig iawn. Roedd ei fab yn byw yn Lloegr ac roedd yn gefnogol iawn, ond roedd yn rhy bell i ffwrdd. Roedd Mr P wedi cael 2 sesiwn gyda chwnselydd profedigaeth preifat i'w helpu wedi iddo golli ei wraig, ond nid oedd yn medru fforddio mwy. 'Roedd yn drist iawn ar y ffôn ac yn crio. Datgelodd hefyd y bu farw ei chwaer yng nghyfraith (unig chwaer ei ddiweddar wraig) yr wythnos gynt - ac mai hi oedd yr unig gysylltiad i deulu ei ddiweddar wraig. 'Roedd yn amlwg yn galaru, nid yn unig am ei wraig, ond hefyd am ei chwaer yng nghyfraith. 'Roedd angen cefnogaeth gan arbenigwyr yn y maes profedigaeth yn ogystal â grwpiau a gweithgareddau cymdeithasol.

Sut cafodd gymorth gan swyddog Linc Cymunedol Môn?

Cyflwynwyd Mr. P i'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, a oedd yn cynnig cynlluniau cyfeillio yn ogystal â thrafnidiaeth a gweithgareddau cymdeithasol yn yr ardal. Eglurwyd nid yn unig y byddent yn gallu dod i'r tŷ i gyfarfod ag ef ond gallent ei helpu hefyd i fynd allan i'r gymuned i gwrdd â phobl leol eraill.

Awgrymwyd hefyd ei fod yn cysylltu â'r hyb cymunedol a oedd wedi ei sefydlu yn ddiweddar yn yr ardal lle'r oedd yn byw. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau, yn amrywio o sesiynau cadw'n heini i glybiau cinio. Mae aelod o staff yn y ganolfan hefyd er mwyn annog unigolion i gymryd rhan yn ogystal â'u cyflwyno i bobl eraill yn yr ardal. Awgrymwyd gofal Profedigaeth Cruise hefyd ond oherwydd y galw mawr a'r rhestrau aros nid oeddent yn gallu ei helpu ar y pryd.

10 munud ar ôl y sgwrs hon, derbyniodd swyddog Linc Cymunedol Môn alwad gan y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, gan nodi eu bod wedi derbyn galwad ffôn gan Mr P a'u bod yn trefnu y byddai gwirfoddolwr fynd i ymweld ag ef y diwrnod canlynol.

Atborth gan Mr.P ar effaith y gwasanaeth

Ar ôl 6 wythnos, ffoniodd swyddog Linc Cymunedol Môn i ofyn sut oedd pethau'n mynd i Mr P. 'Roedd ei agwedd dros y ffôn wedi newid yn llwyr, roedd yn siaradus ac yn swnio'n hapusach nag yn y sgwrs gyntaf. Nododd bod gwirfoddolwr o'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol yn wir wedi ymweld ag ef yn fuan iawn ar ôl y cyswllt gwreiddiol gyda Linc Cymunedol Môn (ni allai gofio ai ar y diwrnod canlynol), a'u bod wedi ei annog i fynd allan o'r tŷ a'i fod wedi mynychu rhai o'u gweithgareddau.

Nododd nad oedd wedi cysylltu â'r hyb cymunedol hyd yn hyn, oherwydd ei fod yn mwynhau cwmni a gweithgareddau'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, ond roedd yn hapus fod y wybodaeth honno ganddo pe bai eisiau cysylltu â'r hyb yn y dyfodol.

Nododd bod y cyswllt wedi bod "O fudd mawr” a’i fod yn teimlo'n llawer gwell gan ddweud bod y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol wedi bod “yn wych. "

Pan ofynnais a oedd angen cymorth gydag unrhyw beth arall atebodd nad oedd angen cymorth mwyach a diolch i Linc am ei roi mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol, a'i fod yn teimlo cymaint gwell.